# Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae mesurau perfformiad yn newid ar gyfer y chweched dosbarth a cholegau.**

Yn 2014/15 aethom ati i gyflwyno fframwaith cynllunio a chyllido newydd ar gyfer dysgu ôl-16, ar sail rhaglenni dysgu. Gwnaethom ymrwymiad i ddatblygu mesurau perfformiad newydd a fyddai'n ein galluogi i fesur deilliannau dysgwyr fesul rhaglen, ac i wneud hynny'n gyson ar draws y chweched dosbarth a cholegau am y tro cyntaf.

Bydd y mesurau perfformiad newydd yn disodli'r mesurau gwahanol a ddefnyddir ar gyfer y chweched dosbarth (trothwy Lefel 3 a sgoriau pwyntiau, ar sail arholiadau dysgwyr) ac ar gyfer colegau (cyfraddau llwyddiant mewn gweithgareddau dysgu, ar sail deilliannau dysgwyr o fewn blwyddyn o astudio). Y bwriad yw eu defnyddio gyda'i gilydd er mwyn creu darlun cyflawn o ddeilliannau disgyblion chweched dosbarth a cholegau, heb i un mesur fod yn bwysicach na'r lleill. Y tri amcan yw:

| Cyflawni | Gwerth ychwanegol | Cyrchfannau |
|---|---|---|

Caiff y mesurau eu defnyddio:

- Gan ysgolion a cholegau i werthuso eu perfformiad a'u cynllun gwelliant eu hunain;
- Gan Estyn yn ei drafodaethau ag ysgolion a cholegau, o 2018/19;
- Gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi deilliannau dysgu ôl-16 ac olrhain gwelliannau;
- I helpu dysgwyr, rhieni a chyflogwyr i wneud dewisiadau deallus ynghylch dysgu ôl-16.

## Datblygu'r mesurau

1. Dechreuwyd datblygu'r mesurau newydd yn 2014, yn sgil yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru.
2. Aethpwyd ati i ymgynghori'n ffurfiol rhwng Ionawr a Mai 2017. Mae'r papur ymgynghori a'r crynodeb o'r ymatebion i'w gweld yma.
3. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos ag Estyn, ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a chonsortia i ddatblygu a mireinio'r mesurau newydd.

### *Diffiniadau o rai termau allweddol*

***Rhaglen ddysgu:*** *pecyn dysgu sydd â diben a deilliant penodol o ran symud ymlaen i gyflogaeth neu i addysg bellach neu uwch. Mae rhaglen o'r fath yn gallu cynnwys nifer o gymwysterau a gweithgareddau dysgu eraill, ee Safon Uwch, Diplomâu BTEC, sgiliau hanfodol a phrofiad gwaith.*

***Cymwysterau cyfatebol:*** *cymwysterau sydd o faint a gwerth tebyg i A2, ac sy'n cyfrif tuag at y mesur cyflawni addysg cyffredinol; ee Diplomâu Atodol BTEC a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Uwch Cymru.*

***Cwblhau:*** *mae dysgwr wedi cyrraedd diwedd ei raglen astudio drwy gwblhau'r gweithgareddau dysgu perthnasol, p'un a yw'n llwyddo i basio ei gymwysterau ai peidio.*

***Cyrhaeddiad:*** *mae dysgwr wedi pasio arholiad neu asesiad arall er mwyn ennill cymhwyster.*


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: post16quality@llyw.cymru

# Y mesurau

## Cyflawni

Mesur lefelau cwblhau a chyrhaeddiad dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni dysgu Safon Uwch, galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru

Cyfrifir y mesur ar lefel y rhaglen ddysgu, ac edrychir ar dri is-fesur:

- **Addysg gyffredinol** (dysgwyr sy'n astudio Safon Uwch a rhaglenni Safon Uwch/galwedigaethol cymysg):
  cyfran y dysgwyr sydd, dros ddwy flynedd o astudio, yn ennill tri chymhwyster Safon Uwch a/neu gymwysterau cyfatebol ar raddau A*-A, A*-C neu A*-E.
- **Galwedigaethol** (dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni galwedigaethol 'pur' mewn sector/maes pwnc penodol):
  cyfran y prif gymwysterau a enillwyd ar raglenni dysgu ar bob lefel.
- **Bagloriaeth Cymru:** cyfran y dysgwyr a gofrestrwyd ar raglenni Bagloriaeth Cymru sy'n cwblhau'r cwrs ac yn ennill y cymhwyster cyffredinol; y graddau a enillwyd ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau.

Mae'r holl fesurau yn seiliedig ar y garfan o ddysgwyr sydd wedi'u cofrestru wyth wythnos ar ôl dyddiad dechrau eu rhaglen, sy'n caniatáu ar gyfer cyfran sy'n gadael y cwrs yn gynnar ac sy'n trosglwyddo i gwrs arall.

*Ffynonellau data*

Ysgolion: Data ar raglenni dysgu o'r Casgliad Ôl-16 sydd wedi'u cymharu â data cyrhaeddiad Cronfa Ddata Arholiadau Cymru

Colegau: Data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

## Gwerth ychwanegol

Mesur y cynnydd a wnaed gan ddysgwyr uwchlaw'r hyn a ddisgwylir ar sail eu cyrhaeddiad blaenorol a'u rhyw

Yn 2016, yn dilyn proses gaffael, penodwyd FFT Education Ltd fel ein contractwr i ddatblygu'r mesur gwerth ychwanegol a llunio adroddiadau ar gyfer ysgolion a cholegau. Mae tri is-fesur i'r mesur:

- **Gradd gyfartalog fesul cymhwyster**: y graddau cyfartalog a enillwyd ar gyfer y cymwysterau y rhoddodd y dysgwyr gynnig arnynt
- **Cyfanswm y ceisiadau i ennill cymhwyster:** nifer cyfartalog y cymwysterau y rhoddodd pob dysgwr gynnig arnynt
- **Cyfanswm pwyntiau pob dysgwr**: cyfanswm cyfartalog pwyntiau'r cymwysterau a enillwyd gan bob dysgwr

Ar hyn o bryd, mae dysgwyr 16-19 oed ac sy'n astudio cymwysterau Lefel 3 o fewn cwmpas y model gwerth ychwanegol, ac mae yna gynigion i ehangu'r ystod oedran i gynnwys dysgwyr hŷn yn y dyfodol.

*Ffynonellau data*

Data ar nodweddion dysgwyr o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) sydd wedi'u cymharu â data Cronfa Ddata Arholiadau Cymru ar gyrhaeddiad blaenorol ac ôl-16.

Data ar gyrhaeddiad disgyblion Lloegr o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion

Data ar gampysau dysgwyr addysg bellach o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

## Cyrchfannau

Mesur cyfran y dysgwyr sy’n symud ymlaen i ddysgu pellach (gan gynnwys addysg uwch) a/neu gyflogaeth.

Mae'r mesur hwn yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio cofnodion addysg a chyflogaeth sydd wedi'u cymharu, drwy gymryd rhan yn astudiaeth Canlyniadau Addysg Hydredol Llywodraeth y DU.

Mae'r mesur arfaethedig yn seiliedig ar ddysgwyr sydd wedi symud ymlaen i gyflogaeth neu addysg bellach ar yr un lefel neu lefel uwch, ac wedi aros yno drwy dymhorau'r hydref a'r gwanwyn y flwyddyn academaidd yn dilyn diwedd eu rhaglen ddysgu. Mae'n cynnwys dysgwyr sydd mewn cyflogaeth a dysgu pellach, ee prentisiaethau.

*Ffynonellau data*

Data addysg sydd wedi'u cymharu o CYBLD, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru ac Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch.

Cofnodion cyflogaeth a budd-daliadau sydd wedi'u cymharu a gedwir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: post16quality@llyw.cymru